

# Yr Ysgol Sul

## Darllen: Diarhebion 22:6

Pan oeddwn yn arweinydd clwb ieuenctid, flynyddoedd maith yn ôl erbyn hyn, byddai un neu ddau o fechgyn yn dod draw o ardaloedd eraill er mwyn cael chwarae tennis bwrdd am nad oedd ganddyn nhw fwrdd yn eu clwb eu hunain. Un noson, daeth un o'r bechgyn dieithr i mewn ar ei ben ei hun, a radio yn ei feddiant. A rhywbeth tebyg i hyn oedd y sgwrs rhyngom:

Wedi cael radio newydd?

*Na, dod o hyd iddi 'nes i.*

O, yn lle felly?

*Dydw i ddim yn cofio.*

Ydych chi'n siŵr?

*Dwyn hi 'nes i.*

Ond fedrwch chi ddim mynd o gwmpas yn dwyn pethau pobl eraill.

*Pam ddim?*

Wel, dydi o ddim yn iawn. Mae'r radio yma'n perthyn i rywun arall. Beth petai rhywun yn torri'i mewn i'ch ystafell wely a dwyn eich pethau chi?

*Mi ydw i'n cloi fy stafell bob amser.*

Ond nid dyna'r pwynt.

*Ond arno fo oedd y bai. Doedd o ddim wedi cloi'i gar. Os ydi o'n ddigon gwirion i adael ei gar heb ei gloi, yna arno fo mae'r bai. Os ydi o'n gadael ei gar heb ei gloi, mae'n gofyn amdani.*

Ac aeth y sgwrs yn ei blaen. Deuthum i wybod mwy am gefndir y bachgen. Roedd ei frawd hynaf yn y carchar, a'i dad wedi treulio naw mis dan glo rai blynyddoedd cyn hynny. Iddo fo, roedd bywyd yn gystadleuaeth. Gwelai ei gymheiriaid yn cael popeth ac yntau'n cael y nesa peth i ddim. Credai fod ganddo hawl i unrhyw beth a welai, ac roedd dwyn y radio yn ffordd o 'gael', doed a ddelo. Gwyddai hefyd bod rhai o'i gymheiriaid yn edrych i fyny ato ac yn ei edmygu. Dyma'i ffordd o ennyn edmygedd a pharch y

gweddill. Bu pob ymdrech ar fy rhan i yn fethiant llwyr. Roedd cefndir a meddylfryd y bachgen yn gwbl wahanol i'm rhai i.

Mae'n werth ystyried am funud beth oedd nodweddion ysgolion Sul cynnar Thomas Charles o'r Bala. Rhoddwyd pwyslais ar ddysgu darllen, er mwyn gallu darllen a deall y Beibl, ac roedd Charles ei hun wedi paratoi'n helaeth ar gyfer meistrolï'r sgil hon. Paratôdd lyfrau darllen syml i hybu'r plant ymlaen, a chyfansoddodd gatecismau oedd yn crynhoi athrawiaeth y Beibl mewn dull cwestiwn ac ateb. Ar gyfer oedolion, lluniodd gyfrol o ddiwinyddiaeth ar ffurf geiriadur. Rhoddodd le amlwg i'r broses o ddysgu, gyda'r nod o achub enaid yr unigolyn. Ond fe wnaeth lawer mwy. Rhoddodd bwyslais ar foesoldeb ei athrawon a'r disgyblion. Mynnai nad cyraeddiadau academaidd oedd y cymhwyster ar gyfer ei athrawon. Fe'u dewisodd yn hytrach ar sail eu duwioldeb a'u moesoldeb a'u gwyleiddra. A dyma'r nodweddion a gymhellid yng ngwead yr ysgol Sul drwyddi draw. Yn ei gyfrol o reolau i'r ysgolion Sul, ceir y geiriau 'trefn' a 'rheol' byth a hefyd gan mai'r rhain oedd nodau amgen trefniadaeth yr ysgolion. Roedd meithrin parch atynt eu hunain, a pharch at eraill, ynghyd â hunan ddisgyblaeth, yn hanfodol ymhlith deiliaid yr ysgolion hyn. Rhoddodd ganllawiau pendant sut i ymddwyn, nid yn unig yn yr ysgol Sul ond yn y cartref ac yn y gymdeithas. Ei nod oedd creu gwareiddiad wedi'i sylfaenu ar egwyddorion y Beibl. Nid ysgaru dysg a moes a wnaeth Charles, ond eu cyfannu er mwyn creu unigolion cyflawn.

### **Myfyrdod pellach:**

Sut fyddech chi wedi trin y bachgen â'r radio?

Pa mor bwysig ydi dysgu plant ac ieuenctid i ymddwyn fel aelodau da o gymdeithas?